# Aren Cymru

## Cymorth i Gleifion











Supporting families.
Changing lives.

Cefnogi teuluoedd.
Newid bywydau.






Kidney Wales
Aren Cymru

Wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Elusennau 1960. Rhif elusen 700396
Rhif Cofrestru'r Cwmni 2268003. Sefydlwyd 1967.

# Pwy ydym ni

**Aren Cymru yw'r brif elusen arennau yng Nghymru sydd yma i'ch cefnogi chi drwy gydol eich taith arennau.**

Rydym wedi bod yn helpu i newid bywydau cleifion arennau sy'n byw yng Nghymru ers 55 mlynedd a mwy ac rydym wedi dod yn un o'r prif ysgogwyr newid wrth sefydlu cofrestrfa trawsblaniadau Cymru a'r DU, cynnwys cardiau Rhoddwr gyda phob cais am drwydded yrru a newid y gyfraith mewn perthynas â chydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau yng Nghymru. Rydym yn parhau i fod yn rhan o brosiectau arloesol ac i ariannu ymchwil hanfodol gyda'r nod o wella ansawdd bywyd cleifion arennau.



## Rheolwr Gwybodaeth a Chymorth i Gleifion

Helo, Corrine ydw i a fi yw'r Rheolwr Gwybodaeth a Chymorth i Gleifion ar gyfer Aren Cymru. Ymunais â'r elusen yn 2022, gyda chefndir o gefnogi cleifion arennau. Mae gen i ddau blentyn ifanc y mae clefyd yr arennau ar eu tad ac mae wedi bod drwy ddialysis peritoneol a hemodialysis ac wedi cael trawsblaniad. Drwy gydol ei daith, dysgais ochr yn ochr ag ef, a wnaeth fy ngalluogi i roi cymorth pan oedd yn cael dialysis dros nos yn y cartref drwy helpu i osod ei beiriant yn ei le a'i gynorthwyo pryd bynnag yr oedd angen.

Rwy'n deall llanw a thrai bywyd fel claf arennau a'r effaith gydol oes y mae hynny yn ei chael ar gleifion a'u teuluoedd. Rydw i wastad wedi bod yn onest gyda fy mhlant am glefyd yr arennau i helpu eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth. Mae gweithio i Aren Cymru a gallu cefnogi cleifion a theuluoedd yn meddwl y byd i mi. Mae pob taith aren yn wahanol, ac rwyf yma i wrando ar brofiadau cleifion ac i ddod o hyd i'r cymorth gorau iddynt.



## Taleb Bwyd Llesiant

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu am gost eich siopa bwyd, gallwn ni helpu gyda **thaleb bwyd llesiant untro** i'w wario yn eich archfarchnad Asda, Tesco, Morrison neu Sainsbury's lleol.

Gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol arennol gwblhau ffurflen gais.

## Lles a Budd-daliadau

Brwydro yn erbyn tlodi yn y DU mewn partneriaeth â **Turn 2 Us** er mwyn helpu'r rhai sy'n mynd drwy drafferthion ariannol. Gallwn eich helpu i ddarganfod pa fudd-daliadau y gallai fod gennych hawl iddynt er mwyn cynyddu eich incwm.

## Cyngor ar Ddyledion

Rydym yn cydweithio ag **elusen ddyledion StepChange**, gyda'r nod o gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed gyda chyngor am ddim a help i reoli eu harian a dod o hyd i ddatrysiadau fforddiadwy i dalu dyledion.

Gallwn hefyd gyfeirio at **Ymddiriedolaeth Ynni Prydain** a all helpu gyda dyled ynni bresennol ag unrhyw gyflenwr.

## Parsel Banc Bwyd

Os ydych chi mewn argyfwng ac yn ei chael hi'n anodd fforddio bwyd, gallwn ni helpu gyda pharsel banc bwyd gan **Ymddiriedolaeth Trussell**. Maen nhw ar gael i gleifion arennau, rhieni a gofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd. Mae'r parseli'n seiliedig ar faint eich aelwyd, ac maent yn cynnwys gwerth 3-4 wythnos o eitemau.

Oes gennych chi gwestiwn am ddialysis ar wyliau?

Ydych chi am gael gwybod am yswiriant bywyd?

Ydych chi'n poeni am arian?

Rydym yma i'ch cefnogi beth bynnag yw'r ymholiad.

## Cymorth i Ofalwyr

Os ydych chi'n gofalu am rywun sy'n byw gyda chlefyd yr arennau, yn rhiant i blentyn sydd â chlefyd cronig yr arennau neu'n glaf yr arennau sy'n gofalu am aelod o'r teulu, rydym yma i'ch cefnogi chi. Mae gennym fathau amrywiol o gymorth, gan gynnwys grantiau a thalebau llesiant gofalwyr. Rydym hefyd yn cynnig cymorth drwy'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, sy'n eich rhoi mewn cysylltiad â'ch canolfan ofalwyr neu grŵp cymorth lleol i ddarparu'r adnoddau a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnoch i lywio heriau gofalu am rywun sydd â chlefyd yr arennau, gan sicrhau eich bod chi a'ch anwyliaid yn cael y cymorth gorau posibl.

# Grantiau Cymorth Ariannol

## Beth yw grantiau cymorth ariannol Aren Cymru?

Diben ein grantiau **cymorth ariannol** yw cefnogi cleifion arennau pan fyddant yn mynd drwy galedi ariannol, sy'n gysylltiedig â baich clefyd cronig yr arennau neu'n deillio ohono. Bydd pob cais yn cael ei adolygu er mwyn asesu a yw'r cais yn bodloni ein gofynion am ddyfarniad grant.

## Pwy all wneud cais am grant Aren Cymru?

Bydd ceisiadau ond yn cael eu derbyn gan **weithwyr gofal iechyd proffesiynol**, a gyflwynir ar ran cleifion gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost cofrestredig y GIG/Bwrdd Iechyd. Yn ddelfrydol, eich Gweithiwr Cymdeithasol Arennol neu Seicolegydd Clinigol fyddai hwn, ond gellir hefyd ystyried ceisiadau gan aelodau eraill o'ch tîm gofal arennau.

## At beth y gallaf ddefnyddio grant?

Gellir dyfarnu grantiau am eitemau lle mae angen cymorth ariannol, megis:

- Talu am ôl-ddyledion rhent/cyfleustodau.
- Talebau bwyd mewn argyfwng.
- Nwyddau gwyn (e.e., peiriannau golchi dillad, microdonau, oergell-rewgelloedd).
- Dodrefn hanfodol/newydd neu atgyweiriadau i'r cartref.
- Gliniaduron er mwyn i gleifion allu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant.
- Costau teithio sy'n gysylltiedig â thriniaeth neu bethau fel cyfweliadau swydd (o dan rai amgylchiadau).

## Faint y gallaf wneud cais amdano?

Nid oes terfyn isaf i'r swm y gofynnir amdano, ond mae gennym derfyn uchaf o **£500**.


Bydd staff ac ymddiriedolwyr yn ystyried y canlynol:

- Y budd i'r unigolyn.
- Cyfanswm y cyllid sydd ar gael i gymuned Aren Cymru.
- Lledaeniad daearyddol dyfarniadau ariannu.

Gall gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wneud cais ar ran yr un claf unwaith bob 12 mis.

## Pryd y byddaf yn clywed a gaiff fy nghais ei gefnogi?

Gan gydnabod y bydd y ceisiadau am gyllid o natur frys yn aml, bydd pob ceisydd yn cael gwybod o fewn pum diwrnod gwaith a yw ei gais wedi cael ei dderbyn ai peidio.



# Gwybodaeth ac Addysg

## Addysg



Gwyddom yn Aren Cymru fod addysg yn allweddol. Dyna pam rydym yn gweithio ar nifer o weminarau a digwyddiadau addysgol drwy gydol y flwyddyn y gallwch gymryd rhan ynddynt.

Gweler isod rai o'r digwyddiadau gwybodaeth ac addysgol a ddarparwn:

- **Gweminarau Ar-lein** – Y pynciau a'r newyddion diweddaraf sy'n effeithio ar gleifion arennau.
- **Sesiynau Holi ac Ateb** – Byddwn yn gofyn y cwestiynau y gwnaethoch eu codi â gweithwyr iechyd proffesiynol.
- **Sesiwn Popeth am Aren Cymru** – Cewch gyfle i gyfarfod â'r tîm, clywed beth rydym yn ei wneud, diweddariadau i'n gwasanaethau a sut rydym yn cefnogi ein Cymuned Arennau.

## Dewch i Drafod

Kidney Wales Aren Cymru

Ymunwch ag un o'n sesiynau **Dewch i Drafod** misol ochr yn ochr â chleifion arennau eraill.

- Pwnc newydd bob mis.
- Dweud eich dweud.
- Cael atebion i'ch cwestiynau.
- Y newyddion diweddaraf, cyngor sy'n effeithio ar y gymuned arennau.

## Sianel YouTube Aren Cymru!

Mae ein sianel YouTube yn cynnwys fideos addysgol a llawn gwybodaeth fel **sesiynau Holi ac Ateb**, **Straeon cleifion**, **Gweminarau** a llawer mwy.

Gallwch ddal i fyny ar y **wybodaeth ddiweddaraf** a'r sesiynau **Dewch i Drafod** yma hefyd!

*Gallwch gael y newyddion diweddaraf, diweddariadau a gwybodaeth am ddigwyddiadau gan Aren Cymru drwy ein dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol, cofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr neu ymweld â'n gwefan.*

www.kidneywales.cymru

# Llysgennad Gwirfoddolwyr



## Llysgenhadon Gwirfoddolwyr

Bydd dod yn **Llysgennad Gwirfoddolwyr** yn rhoi cyfle i chi ymuno â'n teulu arennau, a byddwch yn gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned drwy helpu i godi ymwybyddiaeth o glefyd yr arennau. P'un a ydych yn byw â chlefyd yr arennau neu'n gwirfoddoli ar ran rhywun sy'n byw â'r clefyd, **MAE EICH STORI YN BWYSIG** a byddwn yn aros gyda chi bob cam o'r ffordd.



## Dyma Rosie...

"Gwnes i wir fwynhau gallu rhoi sgwrs i Fyfyrwyr am roi organau yng Nghaerdydd ar 16/2/22. Er mwyn gallu rhannu fy stori a fy mhrofiad o roi organau, yn ogystal â gwybodaeth am y gwaith y mae Aren Cymru yn ei wneud a sut y gall helpu. Cyn y sgwrs, gwnes i'n siŵr bod y ffeithiau a ffigurau yn gyfredol a chwiliais am atebion i unrhyw gwestiynau posibl y gellid eu gofyn i mi. Rwyf wir yn edrych ymlaen at gynnal rhagor o sgyrsiau yn y dyfodol a gallu rhannu fy ngwybodaeth am glefyd yr arennau."



## Dyma Gareth...

" Yn 2019, rhoddais aren i'm merch a oedd yn 20 oed ar y pryd. Rwyf wedi bod yn codi arian i Aren Cymru byth ers hynny er mwyn helpu pobl y mae clefyd yr arennau wedi effeithio arnynt. Rwyf wedi bod yn llysgennad i Aren Cymru ers rhai misoedd. Bu'r hyfforddiant a'r cymorth yn wych, ynghyd â thîm Aren Cymru. Mae'n dda cyfarfod â phobl newydd sydd â chysylltiadau gwahanol â'r elusen, achos mae gan bawb safbwynt unigryw. Mae siarad yn gyhoeddus a threfnu fy sgyrsiau fy hun wedi gwella fy hunanhyder hefyd."

Cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth am fod yn Llysgennad gydag Aren Cymru

team@kidneywales.cymru 02920 343940

# Cysylltwch â Ni




## Ar-lein

### Ydych chi am wybod mwy am Aren Cymru neu glefyd yr arennau?

Ewch i'n gwefan lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am godi arian, beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn cefnogi cleifion, rhoddion, digwyddiadau sydd ar ddod a ble y gallwch ddod o hyd i'r cymorth iawn!

**www.kidneywales.cymru**

Sganiwch y cod QR i ymweld â'n gwefan!

Wyddech chi?
Mae Aren Cymru yn un o chwe elusen arennau yn y DU sy'n rhan o'r grŵp Kidney Charities Together. Mae'n codi ymwybyddiaeth ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd iechyd yr arennau ac effaith clefyd yr arennau.

## Cap ffistwla

Cysylltwch â ni os hoffech gael **cap ffistwla achub bywyd Aren Cymru**, masg wyneb neu fand arddwrn rhybudd am ffistwla rhydweli-wythiennol.




## Cysylltu â Ni

**02920 343940**

**corrine@kidneywales.cymru**
neu
**team@kidneywales.cymru**

Kidney Wales

Aren Cymru

www.kidneywales.cymru